



5<sup>ed</sup> Mai 2017

Annwyl Swyddog Cyfrifol

## Datganiad Cydymffurfiaeth i Cymwysterau Cymru

Mae'r llythyr hwn yn nodi'r broses ar gyfer cyflwyno eich datganiad cydymffurfiaeth blynyddol ar gyfer 2017 i Cymwysterau Cymru ac mae'n amlinellu'r trywyddau ymholi ar gyfer eleni y bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ategol ar eu cyfer.

Eleni byddwn yn cyflwyno datganiad cydymffurfiaeth ar-lein, gan ddefnyddio ein gwefan [QiW](#). Fel y Swyddog Cyfrifol, dyrannir manylion mewngofnodi diogel i chi er mwyn cael mynediad at QiW i gwblhau, cymeradwyo a chyflwyno eich datganiad cydymffurfiaeth. Gallwch ofyn am fanylion mewngofnodi ychwanegol er mwyn i gydweithwyr olygu eich datganiad cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, nodwch mai'r Swyddog Cyfrifol yn unig fydd â hawliau i gymeradwyo eich datganiad cydymffurfiaeth a'i gyflwyno.

Os bydd angen manylion mewngofnodi ychwanegol arnoch er mwyn i staff olygu eich datganiad cydymffurfiaeth, rhowch wybod i ni erbyn **dydd Llun, 15<sup>fed</sup> Mai 2017**, gan ddarparu enw, teitl swydd a chyfeiriad e-bost yr unigolyn/unigolion y mae angen manylion mewngofnodi ychwanegol arnoch ar ei gyfer/eu cyfer. Anfonwch y manylion hyn i [datganiadcydymffurfiaeth@cymwysteraucymru.org](mailto:datganiadcydymffurfiaeth@cymwysteraucymru.org). Caiff eich manylion mewngofnodi, ynghyd ag unrhyw fanylion mewngofnodi ychwanegol y byddwch yn gwneud cais amdanynt, eu hanfon cyn i'r ffenestr gyflwyno agor.

Fel yn 2016, byddwn yn gofyn am dystiolaeth i ategu eich datganiad cydymffurfiaeth ar gyfer rhai amodau. Yr amodau a ddewiswyd ar gyfer 2017 yw:

- B2 - eich proses ar gyfer sichrau cywirdeb y datganiad
- D4 - Gweithdrefnau cwynion
- I1 - Y broses apeliadau
- C2.3 - Trefniadau gyda chanolfannau
- E7 - Cyfanswm Amser Cymhwysu ac Oriau Dysgu Dan Arweiniad



Bydd y templed datganiad cydymffurfiaeth terfynol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y math o dystiolaeth y byddem yn disgwyl ei derbyn i ategu eich datganiad.

Rydym wedi ymgynghori ag Ofqual ac adran Reoleiddio CCEA ac wedi cytuno ar gyfnod cyflwyno cyffredin a fydd yn darparu cysondeb i gyrff dyfarnu. Rhaid i chi gyflwyno eich datganiad blynyddol i ni **rhwng dydd Iau 1<sup>af</sup> Mehefin a hanner nos dydd Gwener 29<sup>ain</sup> Medi 2017.**

Os bydd angen unrhyw wybodaeth arnoch ynglŷn â phroses datganiad cydymffurfiaeth 2017, cysylltwch â ni ar y cyfeiriad e-bost canlynol: [datganiadcydymffurfiaeth@cymwysteraucymru.org](mailto:datganiadcydymffurfiaeth@cymwysteraucymru.org).

Yn gywir



Denver Davies  
Pennaeth Monitro a Chydymffurfio